# Rhandiroedd a gerddi cymunedol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

## Ymgynghoriad pobl ifanc



# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i bobl yng Nghymru gael bywydau hapus ac iach sy'n llawn cyfleoedd.

Mae bod yn yr awyr agored a gwneud pethau fel garddio yn rhan bwysig o hyn.

Felly rydyn ni eisiau i unrhyw un sydd eisiau tir ar gyfer rhandir neu ardd gymunedol allu cael y tir hwnnw.

Mae rhandiroedd a gerddi cymunedol yn bwysig oherwydd:

- eich bod chi'n cael y cyfle i fwyta bwyd iach;
- eu bod nhw'n eich helpu i gadw'n ffit ac yn iach;
- bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod i weithio gyda'i gilydd;
- bod pawb yn gallu chwarae rhan;
- eich bod chi'n dysgu am adnoddau fel yr haul, dŵr, pridd, ailgylchu a bwyd;
- eu bod nhw'n helpu bywyd gwyllt a natur;
- bod mwy o fannau agored yn cael eu defnyddio gan gymunedau; ac
- nad oes yn rhaid i fwyd deithio pellteroedd hir, sy'n dda i'r amgylchedd.

Yng Nghymru mae gennym ni'r **Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned** yn barod, sy'n helpu i roi gwybod i bawb am fanteision tyfu bwyd ac sy'n cefnogi cymunedau i dyfu bwyd mewn gerddi cymunedol ac ar randiroedd.

Ond rydyn ni eisiau gwneud mwy oherwydd bod yna lawer o bobl o hyd sy'n aros i dir ddod ar gael.

Darn o dir y gallwch chi ei rentu i dyfu llysiau neu flodau arno yw **rhandir.**

Darn o dir y gall grŵp ei rannu i blannu llysiau a blodau arno yw **gardd gymunedol.**

Mae'r llyfryn yma'n rhoi gwybod ichi am ein nodau a'r newidiadau rydyn ni'n eu hystyried, gan gynnwys newidiadau posibl i'r gyfraith.

**Rydyn ni eisiau cael gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o'n cynlluniau!**

# Ein Nod:

**Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yna ddigon o randiroedd a thir i gymunedau dyfu bwyd ym mhob ardal leol.**

Mewn rhai rhannau o Gymru, mae'n fwy anodd dod o hyd i dir nag mewn eraill. Rydyn ni eisiau i bobl gael yr un cyfle i gymryd rhan mewn tyfu eu bwyd eu hunain, lle bynnag y maen nhw'n byw.

### Cwestiwn:

Beth yw'ch barn chi ar ein nod?

Sylw

# Sut ydyn ni'n mynd i gyrraedd ein nod?

**1. Rydyn ni eisiau ysgrifennu cyfarwyddiadau a chanllawiau newydd ar gyfer awdurdodau lleol.**

Mae yna wybodaeth a chanllawiau yn barod ar gyfer y DU, ond nid ydyn nhw'n rhoi sylw i holl anghenion pobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd ysgrifennu ein rhai ein hunain yn helpu awdurdodau lleol i ddeall beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

### Cwestiwn:

A ddylai Cymru gael ei chanllawiau ei hun ar gyfer awdurdodau lleol?

☐ Dylai ☐ Na ddylai ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 2. Rydyn ni eisiau helpu i gefnogi pobl sy'n berchen ar dir fel ei fod yn dod ar gael ar gyfer prosiectau bwyd cymunedol.

Rydyn ni'n edrych yn barod ar y posibilrwydd o roi rhywfaint o'n tir ni ar gael ac rydyn ni'n siarad â chyrff cyhoeddus eraill ynglŷn â gwneud yr un peth.

Rydyn ni eisiau dod o hyd i fwy o dir y gellid ei ddefnyddio fel bod gennym ni restr neu 'gronfa' o dir i bobl edrych arni i weld a allen nhw ei ddefnyddio ar gyfer rhandiroedd neu erddi cymunedol

### Cwestiwn:

A oes yna unrhyw erddi cymunedol neu brosiectau bwyd yn eich ardal chi?

Sylw

## 3. Rydyn ni eisiau edrych ar ffyrdd i gefnogi ffermwyr sydd eisiau caniatáu rhandiroedd neu erddi cymunedol ar eu tir.

Weithiau mae ffermwyr yn ofni na fydd prosiect yn gweithio, na fydd y rhent yn cael ei dalu neu na fydd pobl yn gofalu am y tir. Rydyn ni eisiau edrych ar wahanol ffyrdd y gallwn ni gefnogi ffermwyr i'w gwneud hi'n haws iddyn nhw weithio gyda chymunedau neu brosiectau tyfu bwyd ysgolion.

### Cwestiwn:

Sut ydych chi'n meddwl y gallwn ni helpu ffermwyr i roi tir ar gael?

Sylw

## 4. Rydyn ni eisiau ysgrifennu set o reolau a chanllawiau fel bod pobl yn gwybod pa fath o sied neu adeilad y maen nhw'n cael ei godi ar randiroedd neu erddi cymunedol.

Efallai fod pobl eisiau cael sied fach neu dŷ gwydr ar eu rhandiroedd. Nid oes yn rhaid ichi gael caniatâd cynllunio bob amser i godi'r rhain, ond mae yna bethau eraill y gallai fod angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

Bydd cael set glir o reolau'n helpu pawb i wybod beth sydd wedi'i ganiatáu a beth sydd heb ei ganiatáu ar ddarn o dir.

### Cwestiwn:

Ydy hi'n syniad da rhoi set newydd o reolau a chanllawiau i berchnogion rhandiroedd a gerddi cymunedol?

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 5. Rydyn ni eisiau newid ystyr 'rhandiroedd' mewn cyfraith fel ei fod yn cynnwys gerddi cymunedol a phrosiectau tyfu bwyd cymunedol.

Mae ffordd pobl o ddefnyddio rhandiroedd wedi newid dros amser. Mae yna lawer o bobl sy'n gwneud mwy na thyfu bwyd ar gyfer eu hunain; maen nhw'n ei dyfu ar gyfer ffrindiau neu grwpiau. Mae rhai yn tyfu pethau i'w gwerthu i helpu gerddi cymunedol neu brosiectau ysgolion. Bydd newid y diffiniad o 'randir' yn helpu i wneud yn siŵr bod pob un o'r mathau yma o brosiectau'n cael yr help, y gefnogaeth a'r tir sydd eu hangen arnyn nhw.

### Cwestiwn:

A fyddai hi'n beth da esbonio union ystyr 'rhandir' yn yr 21ain ganrif?

☐ Byddai ☐ Na fyddai ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 6. Rydyn ni eisiau caniatáu i awdurdodau lleol adael i grwpiau gwirfoddol, elusennau a sefydliadau eraill redeg gwasanaethau rhandiroedd a gerddi cymunedol ar eu rhan.

Mae llawer o awdurdodau lleol yn gweithio'n barod â grwpiau sy'n rhoi cymorth a chyngor i bobl ar dyfu bwyd a sgiliau garddio ac sy'n cysylltu pobl â phrosiectau.

Gallai newid y gyfraith fel bod awdurdodau lleol yn gallu rhoi mwy o gyfrifoldebau i'r grwpiau yma olygu y bydd mwy o bobl yn cael y cyfle i gael rhandiroedd neu i fod yn rhan o erddi cymunedol.

### Cwestiwn:

A ddylid caniatáu i elusennau a grwpiau eraill redeg gwasanaethau rhandiroedd a gerddi cymunedol?

☐ Dylid ☐ Na ddylid ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 7. Rydyn ni eisiau llunio cofrestr (rhestr) a chael map sy'n dangos yr holl dir sydd gennym ni i dyfu bwyd.

Mae yna lawer o wahanol ffyrdd o reoli tir ar gyfer rhandiroedd a gerddi cymunedol. Awdurdodau lleol sy'n berchen ar rywfaint o'r tir, a ffermwyr ac elusennau sy'n berchen ar rywfaint arall. Gallai fod yn hynod ddefnyddiol cael cofrestr a map cyfredol sy'n dangos yn glir lle mae'r tir a pha dir sydd ar gael i bobl ei ddefnyddio.

Fe allai ddangos i ni hefyd lle mae angen i ni ddod o hyd i fwy o le ar gyfer rhandiroedd a phrosiectau tyfu bwyd eraill.

### Cwestiwn:

A fyddai hi'n syniad da newid y gyfraith fel bod gennym ni gofrestr a map?

☐ Byddai ☐ Na fyddai ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 8. Rydyn ni eisiau rhoi rhestr aros ar waith ar gyfer safleoedd tyfu bwyd cymunedol.

Dylai pob cymuned ledled Cymru gael yr un cyfleoedd. Rydyn ni o'r farn y bydd dechrau rhestr aros yn helpu awdurdodau lleol i baru grwpiau'n gyflym â thir, ac yn eu helpu nhw i ddeall faint o dir newydd sydd ei angen ar gyfer tyfu.

### Cwestiwn:

Ydy hi'n syniad da cael rhestr aros?

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 9. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod yna gynllun sy'n manylu ar sut bydd awdurdodau lleol yn gweithio i ddod o hyd i dir ar gyfer pobl neu grwpiau sy'n aros.

Weithiau, mae awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i dir i bobl ei ddefnyddio i dyfu bwyd, ac nid oes unrhyw gyfyngiad ar ba mor hir y mae'n rhaid i bobl aros.

Gallai bod â chynlluniau newydd ar waith eu helpu nhw i gydweithio ag elusennau, grwpiau gwirfoddol a thirfeddianwyr eraill i ddod o hyd i dir newydd yn gyflymach.

### Cwestiwn:

A ddylai awdurdodau lleol fod â chynllun ar gyfer sut byddan nhw'n dod o hyd i dir ac yn cwtogi ar restrau aros?

☐ Dylent ☐ Na ddylent ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 10. Rydyn ni eisiau ei gwneud hi'n bosibl i awdurdodau lleol a chynghorau tref gael yr hawl i gofrestru a thyfu bwyd ar dir cyhoeddus os nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall, neu ar dir sydd heb berchennog.

Rydyn ni o'r farn y gallai'r hawl yma olygu y bydd mwy o bobl a grwpiau cymunedol yn cael y cyfle i dyfu bwyd a blodau.

### Cwestiwn:

A ddylai fod mwy o hawliau i dyfu pethau ar dir os nad yw'n cael ei ddefnyddio?

☐ Dylai ☐ Na ddylai ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

## 11. Rydyn ni eisiau caniatáu i gymunedau ddefnyddio tir sydd wedi'i neilltuo ar gyfer pethau eraill i dyfu bwyd.

Mae yna rai darnau o dir fel meysydd pentref, ymylon meysydd chwarae, parciau a thir ger ffyrdd diogel y gellid eu defnyddio ar gyfer prosiectau tyfu bwyd a blodau cymunedol.

Ni fyddai pob darn o dir yn dda ar gyfer tyfu bwyd oherwydd rhesymau fel diogelwch, ond rydyn ni o'r farn y byddai hyn yn helpu i ddod o hyd i fwy o dir i bobl ei ddefnyddio.

### Cwestiwn:

Ydy hyn yn syniad da?

☐ Ydy ☐ Nac ydy ☐ Ddim yn gwybod

Sylw

# Camau Nesaf

## Y cwestiwn olaf

Oes yna unrhyw beth rydyn ni heb ei gynnwys?



## Diolch am ddarllen hwn

Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau a fydd yn gwneud gwir wahaniaeth ac yn helpu mwy o bobl i gael y cyfle i fwynhau gweithio yn yr awyr agored ar randiroedd ac mewn gerddi cymunedol.

## Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi

Anfonwch eich atebion erbyn 6 Hydref 2014 i:

Allotments@Wales.gsi.gov.uk

neu

Yr Is-adran Chwaraeon, Hamdden Awyr Agored a Thirweddau
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR